

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn ar **15 Ionawr 2024** am 6.30 pm.

**PRESENNOL** :- Ei Theilyngdod y Maer, y Cyng. Elin Walker Jones (Cadeirydd), Cyng. Gareth Parry, Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. L. Toth, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

**96/23 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Salamatu Fada Cyng, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Delyth Russell.

**97/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.**

Dim

**98/23 CYFETHOL CYNGHORWYR NEWYDD.**

Gohiriwyd yr eitem hon oherwydd salwch un o'r ymgeiswyr.

**99/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD.**

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad gan Swyddog Masnacheiddio ac Arloesi M-SParc . Roedd y cyflwyniad hwn yn manylu ar Raglen Ailgodi Cyngor Gwynedd, a sefydlwyd i gefnogi adferiad busnesau o effeithiau Covid 19, Brexit ac argyfyngau ynni a chostau byw. Amlinellodd sut y byddai'r rhaglen yn helpu busnesau yn y sectorau penodol a gwmpesir a gofynnodd i'r Cyngorwyr ddsbarthu'r wybodaeth mor eang â phosibl, o fewn eu cymunedau.

**100/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG.**

*Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.*

Roedd adroddiad Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr y bydd y contractau cyntaf o £140,000 yn gysylltiedig â Grantiau Trawsnewid Trefi i wella golwg y Stryd Fawr yn cael eu cyhoeddi ymhen wythnos. Mae prosiectau arfaethedig eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn yr adroddiad yn cynnwys cynnig diweddar i Gyngor y Ddinas fod tir rhwng Ffordd Deiniol a Ffordd Sackville yn dod o dan adain Cyngor y Ddinas o dan 'Gytundeb Wedi'i Neilltuo'. Bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn ar y mater hwn. Roedd Cyngor y Ddinas yn cysylltu â chynrychiolwyr y Brifysgol sydd am sefydlu canolfan cyngor cyfreithiol a busnes ar y Stryd Fawr. Adroddwyd ymhellach, yn dilyn llwyddiant prosiect y murlun ar adeilad CAB, dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru, fod prosiect Celfyddydau Bangor ehangach yn cael ei drafod a fyddai'n cynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Bangor, Heddlu Gogledd Cymru, Coleg Llandrillo Menai, Bangor 1876 ac eraill. Eto bydd mwy o wybodaeth yn dilyn yn fuan.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

**101/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 11 RHAGFYR 2023.**

*Roedd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Cyngorwyr.*

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

### **102/23 CYMERADWYO DEFNYDDIO'R CCLA I REOLI ARIAN WRTH GEFN Y CYNGOR.**

*Roedd manylion CCLA wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Cynghorwyr.*

Yn dilyn sylwadau yn Adroddiad Archwilio Mewnol y Cyngor ynghylch y cronfeydd ariannol wrth gefn, roedd y Cyfarwyddwr wedi dod o hyd i gwmni a oedd yn arbenigo mewn rheoli cronfeydd wrth gefn o'r fath yn y sector cyhoeddus. Sefydlwyd y CCLA ym 1958 ac mae'n rheoli tua £58 biliwn o arian cyhoeddus. Mae ei gleientiaid lleol yn cynnwys Cyngor Tref Bae Colwyn a Chyngor Gwynedd. Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo penodi CCLA i reoli ei gyllid wrth gefn.

**PENDERFYNWYD:** penodi CCLA i reoli cronfeydd wrth gefn Cyngor y Ddinas.

### **103/23 CYMERADWYO PENODI ARBENIGOL I'R PWYLLGOR RAS I ZERO.**

Gofynnodd gweithgor Race to Zero Cyngor y Ddinas am awdurdod i benodi Aelodau ychwanegol, yn benodol aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor i gynghori a chynorthwyo gyda'i amcanion.

**PENDERFYNWYD:** dirprwyo awdurdod i'r pwyllgor benodi partïon ychwanegol â diddordeb i'r Pwyllgor hwnnw yn ôl yr angen.

### **104/23 CYMERADWYO CYFLWYNO CAIS AM Y PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL.**

Byddai Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (GPoC) Llywodraeth Cymru yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor gyflawni ei weithrediadau a byddai'n ymestyn ei allu i ymgymryd â phrosiectau. Byddai'r GPoC yn rhoi pwerau i'r Cyngor wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud yn gyfreithiol, yn hytrach na gorfod cael pŵer cyfreithiol penodol.

**PENDERFYNWYD :** gweud cais i Lywodraeth Cymru am y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.

### **105/23 CYMERADWYO EHANGU CCTV BANGOR FEL Y CYNIGIR.**

Ymhellach i amcan datganedig y Cyngor o sicrhau bod pob maes chwarae yn y Ddinas yn cael ei wyllo gan deledu cylch cyfyng, derbyniwyd dyfynbris gan gyflenwyr a benodwyd gan Gyngor Gwynedd i ychwanegu ardaloedd chwarae Coed Mawr, Hoel Dewi a Lôn y Glyder. £6,500 oedd y dyfynbris.

**PENDERFYNWYD :** cymeradwyo'r dyfynbris fel cam nesaf ehangu CCTV a gosod CCTV yn y lleoliadau hyn.

### **106/23 TRAFOD CYNNIG CYMHELLIANT ECONOMAIDD I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG I WNEUD YMCHWIL A FYDDAI O DDEFNYDD I'R CYNGOR.**

Derbyniwyd cynnig i gynnig cymhelliad ariannol i fyfyrwyr ôl-raddedig Prifysgol Bangor, i wneud eu hymchwil a chwblhau eu thesis ar bynciau a fyddai o ddiddordeb neu o fudd i Gyngor y Ddinas. Yn dilyn trafodaeth fer, ystyriwyd y byddai'n fuddiol cynnig llai o fwrariaethau o symiau uwch yn hytrach na mwy o fwrariaethau o werth is.

**PENDERFYNWYD :** cymeradwyo mewn egwyddor y cysyniad o sefydlu system fwrariaeth o tua £3,000 y flwyddyn i fyfyrwyr sy'n ymgymryd ag ymchwil berthnasol i Fangor.

### **107/23 CEISIADAU CYNLLUNIO.**

- i. C23/1024/11/LL - Cais i rannu siop llawr gwaelod i greu fflat preswyl newydd ac ehangu siop - 304 Stryd Fawr.

**Gwrthwynebiad – ar sail dwysedd. Pe bai'n llwyddiannus byddai tua naw ystafell wely yn yr adeilad hwn. Mae'r ystafelloedd, yn enwedig y gegin, yn fach iawn a dim ond dwy ystafell ymolchi fyddai rhwng y preswylwyr i gyd.**

ii. C24/0002/11/DY - Cais i ddymchwel estyniad unllawr ac adeiladu estyniad deulawr gyda pharcio oddi ar y ffordd yn 60 Ffordd Ffriddoedd, Bangor.

**Dim gwrthwynebiad**

iii. C23/0894/11/LL Cais i osod decin allanol tu allan i'r Iard Gychod, Ffordd Garth, Bangor.

**Gwrthwynebiad – ar sail sŵn, sbwriel a mwy o berygl ar Ffordd Garth. Mae'r cais hwn yn sefydlu man eistedd allanol ar gyfer y dafarn. Credir bod ceisiadau tebyg wedi eu gwrthod yn flaenorol ac mae gan Gyngor y Ddinas yr un pryderon ag yn y gorffennol. Hefyd, mae'r cais hwn yn cael gwared ar ran sylweddol o'r maes parcio. Felly, pan fydd yn brysur bydd yn anodd i gerbydau droi gan olygu bod cerbydau'n cael eu gorfodi i facio allan i Ffordd Garth. Bydd danfoniadau hefyd yn broblem a fyddai'n achosi mwy o dagfeydd traffig a llai o ddiogelwch.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 p.m**

**CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR**